Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Swydd Ddisgrifiad (SDd) Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - NPS Band 3

# Cyfarwyddiaeth: Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: Swydd Ddisgrifiad Swydd Ddisgrifiad: Swyddog y Gwasanaeth Prawf

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Ddogfen** | NPS-JES-0031_ Probation Services Officer_v5.0 |
| **Math o Ddogfen** | Rheolaeth |
| **Fersiwn** | 5.0 |
| **Dosbarthiad** | Annosbarthedig |
| **Dyddiad Cyhoeddi** | 09/07/19 |
| **Statws** | Gwaelodlin |
| **Cynhyrchwyd gan** | Pennaeth y Grŵp |
| **Awdurdodwyd gan** | Y Tîm Gwobrwyo |
| **Tystiolaeth ar gyfer y SDd** | |

**Swydd Ddisgrifiad -**
**NPS**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Swyddog y Gwasanaeth Prawf |
| **Cyfarwyddiaeth** | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **Band** | 3 |

| | |
|---|---|
| **Trosolwg o'r swydd** | Bydd deiliad y swydd yn ymgymryd â'r ystod lawn o waith gyda throseddwyr cyn ac ar ôl dedfrydu. Bydd hyn yn cynnwys asesu, gweithredu dedfrydau, rheoli troseddwyr a chreu adroddiadau. Bydd deiliad y swydd yn darparu cymorth rheoli achos i nifer o droseddwyr gan ddefnyddio gweithdrefnau gwasanaeth a chyfarwyddiadau ymarfer sy'n sail i farn broffesiynol. |
| **Crynodeb** | Asesu a rheoli risg (yn cynnwys cynlluniau rheoli risg a chyfeirio'r risgiau hynny at awdurdod uwch) a berir gan droseddwyr i amddiffyn dioddefwyr troseddau a'r cyhoedd drwy:<br><br>• Cysylltu a darparu gwybodaeth a chyngor i lysoedd troseddol, asiantaethau cyfiawnder troseddol ac asiantaethau partner eraill<br><br>• Goruchwylio a rheoli risg y troseddwyr hynny sy'n destun dedfrydau cymunedol, yn ystod ac ar ôl dedfrydau o garchar.<br><br>• Gweithio gydag asiantaethau a grwpiau eraill i atal troseddu a bodloni anghenion dioddefwyr a throseddwyr.<br><br>Yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y NPS, bydd rhaid i ddeiliad y swydd arddangos ymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant bob amser a deall sut maent yn berthnasol i'r gwaith maent yn ei wneud.<br><br>Rhaid i ddeiliad y swydd gadw at bob polisi o ran natur sensitif/gyfrinachol yr wybodaeth a gaiff ei thrin wrth weithio yn y swydd hon.<br>Os yw'n berthnasol i'r swydd, efallai y bydd gofyn ichi weithio y tu allan i oriau gwaith (h.y. Llysoedd, Adeiladau Cymeradwy, rhaglenni, gweithio gyda'r nos ayb) |

| | |
|---|---|
| **Cyfrifoldebau, Gweithgareddau a Dyletswyddau** | Efallai y bydd yn ofynnol i Swyddogion Gwasanaethau Prawf ymgymryd ag unrhyw gyfuniad, neu bob un, o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a nodir isod:<br>• Ymgymryd â'r ystod lawn o dasgau rheoli troseddwyr gyda throseddwyr sydd wedi'u hasesu fel risg isel neu risg ganolig ac i gefnogi Swyddogion Prawf mewn achosion risg uchel.<br>• Darparu cymorth i'r rheolwr achos i gyfrannu at gyflawni'r cynllun rheoli risg ac adrodd ar newidiadau sylweddol sy'n ymwneud â risg o niwed a/neu risg o aildroseddu neu unrhyw ddiffyg cydymffurfio o fewn gweithdrefnau gorfodi y cytunwyd arnynt<br>• Defnyddio systemau cyfrifiadurol i gynhyrchu, diweddaru a chynnal cofnodion a dogfennaeth arall o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt<br>• Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol i wasanaethau a chyfleusterau a chyfathrebu â staff rheoli troseddwyr, staff ymyriadau, darparwyr gwasanaeth ac asiantaethau allanol i adolygu cynnydd a risgiau cysylltiedig<br>• Ymweld â throseddwyr yn y carchar, yn eu cartrefi neu mewn lleoliad arall yn ôl y gofyn yn unol â gweithdrefnau a pholisïau gwasanaeth.<br>• Gwneud gwaith yn y llys, gan gynnwys cwblhau adroddiadau priodol ynghylch achosion ac erlyn am dorri amodau<br>• Helpu timau eraill yn ôl y gofyn<br>• Cyflwyno a chyd-arwain rhaglenni achrededig sy'n gymesur â'ch gradd<br>• Cynnal profion alcohol a chyffuriau gorfodol yn ôl y gofyn a dilyn gweithdrefnau meddyginiaeth ar bresgripsiwn<br>• Ymgymryd â dyletswyddau diogelu plant yn unol â chyfrifoldebau statudol yr NPS a pholisïau asiantaethau<br>• Dangos sgiliau modelu cymdeithasgar drwy atgyfnerthu ymddygiad ac agweddau cymdeithasgar yn gyson a herio ymddygiad ac agweddau gwrthgymdeithasol<br>• Gweithio o fewn nodau a gwerthoedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr |

| | |
|---|---|
| | Mae’r dyletswyddau/cyfrifoldebau a restrir uchod yn disgrifio’r swydd fel y mae ar hyn o bryd, ac nid yw’n rhestr gyflawn. Disgwylir i ddeiliad y swydd dderbyn addasiadau rhesymol a thasgau ychwanegol sydd ar lefel debyg a allai fod yn angenrheidiol. Os bydd addasiadau sylweddol mae’n bosib y bydd angen ystyried y swydd unwaith eto dan y cynllun Gwerthuso Swydd, a thrafodir hynny â deiliad y swydd yn y lle cyntaf. |
| **Ymddygiad** | • Gwneud Penderfyniadau Effeithiol<br>• Newid a Gwella<br>• Cydweithio<br>• Cyflawni ar Gyflymder<br>• Cyfathrebu a Dylanwadu |
| **Cryfderau** | Cynghorir y caiff cryfderau eu dewis yn lleol, awgrymir 4-8 |
| **Profiad hanfodol** | • Profiad o weithio gydag amrywiaeth eang o bobl sydd wedi profi amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol/personol a'r angen i ddefnyddio tact a doethineb wrth ymdrin â materion cyfrinachol a sensitif<br>• Profiad o gynllunio a chydlynu gwaith<br>• Profiad o weithio gyda grwpiau neu unigolion er mwyn ysgogi a newid ymddygiad<br>• Dealltwriaeth o arfer da yng nghyswllt cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth ac ymrwymo iddynt<br><br>Y gallu i gyflawni pob agwedd lafar o’r rôl yn hyderus drwy gyfrwng y Saesneg neu (pan bennir yng Nghymru) Cymraeg. |
| **Anghenion technegol** | • Isafswm o 5 TGAU ar radd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg, Mathemateg neu'r gallu i ddangos y sgiliau rhifedd a llythrennedd lefel uchel sydd eu hangen i ddarllen, deall a dehongli polisïau a'r gallu i ysgrifennu adroddiadau a gohebiaeth ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol.<br>• Dealltwriaeth o ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu e.e. camddefnyddio sylweddau, problemau ynghylch llety a'r gallu i bwysleisio'n adeiladol gydag amrywiaeth o bobl<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion rheoli achosion ac ymrwymo iddynt.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoli risg/asesu risg yn ymwneud â throseddwyr a'r effaith ar ddioddefwyr troseddau<br>• Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y gweithle<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o waith y System Cyfiawnder Troseddol a’r Gwasanaeth Prawf<br>• Gwybodaeth am nodau ac amcanion y Gwasanaeth Prawf |
| **Gallu** | • Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig gyda throseddwyr, gweithwyr proffesiynol, llysoedd a'r cyhoedd |

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau Gofynnol** | *Peidiwch â newid y blwch hwn*<br><br>• Bydd archwiliadau adnabod a diogelwch yn cael eu cynnal ar bob ymgeisydd cyn iddo/iddi gychwyn yn y swydd.<br>• Bydd rhaid i bob ymgeisydd allanol gwblhau cyfnod prawf o 6 mis. Bydd rhaid i ymgeiswyr mewnol wneud cyfnod prawf os nad ydynt eisoes wedi gwneud cyfnod prawf i HMPPS.<br>• Bydd rhaid i'r holl staff ddatgan a ydynt yn aelod o grŵp neu sefydliad sy’n cael ei ystyried yn hiliol gan HMPPS. |

| | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith (Oriau Anghymdeithasol) a Lwfansau** | |

**Proffil Llwyddiant**

| Ymddygiad | Cryfderau<br><br>Cynghorir y caiff cryfderau eu dewis yn lleol, awgrymir 4-8 | Gallu | Profiad | Technegol |
|---|---|---|---|---|
| Gwneud Penderfyniadau Effeithiol | | Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig gyda throseddwyr, gweithwyr proffesiynol, llysoedd a'r cyhoedd | Profiad o weithio gydag amrywiaeth eang o bobl sydd wedi profi amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol/personol a'r angen i ddefnyddio tact a doethineb wrth ymdrin â materion cyfrinachol a sensitif | Isafswm o 5 TGAU ar radd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg, Mathemateg neu'r gallu i ddangos y sgiliau rhifedd a llythrennedd lefel uchel sydd eu hangen i ddarllen, deall a dehongli polisïau a'r gallu i ysgrifennu adroddiadau a gohebiaeth ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol. |
| Newid a Gwella | | | Profiad o gynllunio a chydlynu gwaith | Dealltwriaeth o egwyddorion rheoli achosion ac ymrwymo iddynt. |
| Cydweithio | | | Dealltwriaeth o egwyddorion rheoli achosion ac ymrwymo iddynt | Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoli risg/asesu risg yn ymwneud â throseddwyr a'r effaith ar ddioddefwyr troseddau |
| Cyflawni ar Gyflymder | | | Profiad o weithio gyda grwpiau neu unigolion er mwyn ysgogi a newid ymddygiad | Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y gweithle |
| Cyfathrebu a Dylanwadu | | | | Gwybodaeth a dealltwriaeth o waith y System Cyfiawnder Troseddol a'r Gwasanaeth Prawf |
| | | | | Gwybodaeth am nodau ac amcanion y gwasanaeth prawf |
| | | | | Dealltwriaeth o ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu e.e. camddefnyddio sylweddau, problemau ynghylch llety a'r gallu i bwysleisio'n adeiladol gydag amrywiaeth o bobl |

NPS-JES-0031_ Probation Services Officer_v5.0